

# Crynodeb Gwirio Ansawdd Gwasanaeth Preswyl Anableddau Dysgu Dyddiad y gweithgarwch: 7 Ebrill 2021

Dyddiad cyhoeddi: 12 Mai 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Cofnod o'r Canfyddiadau

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o wasanaeth preswyl anableddau dysgu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Tenantiaeth â chymorth yw'r gwasanaeth gofal parhaus hwn, sydd yn darparu gofal hirdymor i bedwar preswlydd ag anableddau dysgu ar hyn o bryd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r Brif Nyrs (Cleifion Mewnol Anableddau Dysgu ac Unedau Preswyl) a'r Rheolwr Tîm Dros Dro ar 6 Ebrill 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed o ganlyniad i COVID-19 i'r canlynol:
  - Yr amgylchedd ffisegol
  - Arferion, trefniadau ar gyfer ymweliadau a chadw mewn cysylltiad ag anwyliaid
  - Rheoli ymddygiad
  - Gallu'r cleifion i fynd am dro yn y gymuned/gadael y ward dros dro, a mwynhau gweithgareddau a rhwydweithiau cymdeithasol (gan gynnwys absenoldeb ffurfiol lle mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn gymwys)?
- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd a gofal proffesiynol ehangach

---

pan fydd angen?

- O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a deddfwriaeth DoLS, a sut mae hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r defnydd o ddulliau atal yn gorfforol ac arwahanu. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn y gofal a'r driniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fod y gwasanaeth a'r gyfarwyddiaeth ehangach wedi llunio cynlluniau argyfwng ac wrth gefn, ac wedi'u rhoi ar waith mewn ymateb i'r pandemig, er mwyn rheoli'r gwasanaeth ac unrhyw dderbyniadau newydd yn ddiogel. Ategwyd y rhain gan asesiad risg COVID-19 er mwyn helpu i gadw'r amgylchedd yn ddiogel. Roedd yr asesiad risg wedi cael ei adolygu'n ddiweddar ac roedd unrhyw gamau dilynol wedi'u cwblhau'n brydlon.

Gwelsom hefyd fod asesiad risg tân wedi'i gynnal yn ddiweddar a bod camau wedi'u cymryd i sicrhau bod y camau dilynol yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni a argymhellwyd.

Yn ystod cyfnod cychwynnol y pandemig, gwelsom fod gofyn i bob un o'r preswylwyr warchod oherwydd risg COVID-19. Nodwyd gennym fod rhagofalon ychwanegol wedi'u rhoi ar waith gan y staff yn ystod y cyfnod hwn wrth fynd i siopa ac wrth dderbyn danfoniadau i'r uned er mwyn lleihau nifer y bobl a oedd yn dod i'r uned.

Gwelsom fod ymweliadau wedi'u cyfyngu er mwyn atal trosglwyddiad COVID-19 a bod hyn wedi'i gwneud yn anodd i rai o'r preswylwyr gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd fel yr arferent ei wneud yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, gwnaethom nodi fod ymweliadau rhithwir a chyswllt ffôn anghyfyngedig wedi bod yn nodweddion amlwg drwy gydol y pandemig. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cefnogi preswylwyr yn hyn o beth a bod hyn wedi gweithio'n dda i'r preswylwyr a'u teuluoedd.

Dywedodd y staff wrthym fod gweithgareddau yn y gymuned wedi cael eu cyfyngu drwy gydol y pandemig, a oedd wedi cael effaith negyddol ar arferion dyddiol y preswylwyr. Fodd bynnag, gwelsom fod y staff wedi cymryd camau rhagweithiol ynghyd â'r tîm aml-ddisgyblaethol er mwyn sicrhau y gallai gweithgareddau barhau i gael eu cynnal yn y cartref, a bod y mewnbwn therapiwtig wedi parhau cymaint â phosibl. Ers i'r cyfyngiadau

---

lacio, aethpwyd allan i'r gymuned leol gan gymryd gofal ac asesu'r risgiau.

Gwelsom fod cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol wedi parhau drwy gydol y pandemig a'u bod yn cael eu cynnal ar ffurf rithwir, lle bynnag y bo'n bosibl. Dywedodd y staff y cafwyd mewnbwn da gan bob tîm a bod cydberthnasau proffesiynol wedi gwella. Roedd hyn yn sicrhau y gellid parhau i ddiwallu anghenion gofal a thriniaeth y cleifion drwy gydol y cyfnod.

Gwnaethom ystyried y ffordd y cafodd anghenion corfforol y preswylwyr eu diwallu'n barhaus yn ystod y pandemig. Cadarnhawyd bod pob preswlydd wedi cael archwiliad iechyd blynyddol<sup>1</sup> gan ei Feddyg Teulu. Mae hyn yn sicrhau bod anghenion iechyd a llesiant cyffredinol y preswylwyr yn cael eu diwallu. Pwysleisiodd y staff fod eu meddygfa leol wedi ymateb yn rhagorol i anghenion y preswylwyr, gan gynnwys ffonio'r gwasanaeth bob wythnos i gadarnhau llesiant y preswylwyr.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod archwiliadau arferol gyda gwasanaethau eraill, fel apwyntiadau deintyddol, wedi cael eu gohirio oherwydd effaith COVID-19. Cynghorir y bwrdd iechyd i fonitro hyn a threfnu apwyntiadau cyn gynted â phosibl ar ôl i gyfyngiadau'r pandemig lacio.

Cadarnhawyd bod pob preswlydd wedi cael y dos cyntaf o'r brechlyn COVID-19 a bod y wybodaeth hawdd ei darllen briodol ar gael i helpu'r preswylwyr ddeall mwy am COVID-19 a'r brechlyn.

Gwelsom fod gan bob preswlydd basbort iechyd<sup>2</sup> (neu broffil iechyd), sy'n hyrwyddo gofal diogel ac unigol i'r rhai y gall fod angen iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal eilaidd, fel yr adran achosion brys. Dywedwyd wrthym y byddai staff y gwasanaeth bob amser yn sicrhau eu bod ar gael i gefnogi unrhyw breswylwyr sydd angen triniaeth mewn ysbyty. Cefnogir hyn ymhellach gan Dîm Gweithredu Iechyd y bwrdd iechyd, sy'n rhoi cymorth i'r uned a staff yr ysbyty pan fydd preswlydd o'r gyfarwyddiaeth anableddau dysgu yn cael ei dderbyn i ysbyty. Dywedodd staff wrthym am enghraifft ddiweddar pan oedd y broses hon wedi gweithio'n ddiraffferth ac yn effeithiol, lle roedd y preswlydd wedi ymlacio yn ôl pob golwg ac yn dawel ei feddwl yn ystod ei gyfnod byr yn yr ysbyty.

Er bod y pandemig wedi achosi ymddygiadau heriol ymhlith y preswylwyr, nodwyd mai nifer cymharol isel o ddigwyddiadau a gofnodwyd gan yr uned. Gwelsom fod un preswlydd wedi cael ei gefnogi gan strategaeth Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol<sup>3</sup>, a oedd wedi lleihau'r digwyddiadau yn sylweddol yn ystod y misoedd diwethaf. Cadarnhawyd bod y staff wedi cael yr hyfforddiant perthnasol ar Reoli Ymddygiad Cadarnhaol a'u bod wedi mynychu cyrsiau

---

<sup>1</sup>Mae gan bob unigolyn ag anabledd dysgu hawl i gael archwiliad iechyd blynyddol a all nodi cyflyrau iechyd nas canfuwyd yn gynnar, ac sy'n rhoi cyfle i'r unigolion drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt

<sup>2</sup>Mae pasbort iechyd yn darparu gwybodaeth bwysig am y claf ag anabledd dysgu, gan gynnwys y math o feddyginiaeth y mae'n ei gymryd, unrhyw gyflyrau iechyd presennol sydd ganddo, a'i hoff bethau, ei gas bethau a'r dulliau cyfathrebu sy'n well ganddo,

<sup>3</sup> Mae Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol yn cynnig fframwaith ar gyfer sicrhau dull o reoli ymddygiad heriol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

---

gloywi.

Cadarnhawyd bod proses ar gyfer myfyrio, adolygu a dadfriffio ar ôl ymyriadau, fel atal yn gorfforol, yn dilyn digwyddiadau lle ceir ymddygiad heriol. Gwelsom fod rheolwr lleol yn cynnal ymchwiliad cryno, wedi'i ddilyn gan drafodaeth ffurfiol ac adolygiad yn ystod cyfarfod perthnasol y tîm amlddisgyblaethol. Roedd hyn yn cynnwys cwblhau'r siartiau monitro ymddygiad perthnasol ac adrodd ar ddiwyddiadau.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Dywedwyd wrthym fod cyngor cyfreithiol wedi'i geisio yn ddiweddar ynghylch cyflwyno ceisiadau trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DoLS<sup>4</sup>) ar gyfer y preswylwyr presennol drwy broses y Llys Gwarchod. Gwelsom fod y broses wedi dechrau yn 2017, ond na chafodd ei chwblhau oherwydd nifer o ffactorau, a bod hyn wedi golygu nad oedd y ddogfennaeth yn gyfredol mwyach.

Nodwyd gennym hefyd mai'r cyngor cyfreithiol a roddwyd i'r uned oedd y dylid aros i'r Trefniadau Diogelu Rhyddid (TDRh) newydd sy'n disodli'r DoLS, ddod i rym. Ers i COVID-19 ohirio gweithrediad y broses TDRh, gwnaed penderfyniad yn ystod hydref 2020 i edrych o'r newydd ar y ceisiadau DoLS gwreiddiol. Ar adeg y gwiriad ansawdd, nodwyd bod y ceisiadau ar gyfer y preswylwyr i gyd i fod i gael eu cyflwyno'n fuan.

Er mwyn sicrhau bod eu hawliau'n cael eu diogelu a bod y penderfyniadau a wneir er lles pennaf y preswylwyr (cleifion), rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff unrhyw geisiadau DoLS yn y dyfodol eu cyflwyno mewn modd amserol cyn gynted ag y daw'n hysbys bod angen gwneud cais. Dylai'r bwrdd iechyd hefyd gadarnhau nad oes unrhyw geisiadau pellach heb eu gwneud ar gyfer preswylwyr sy'n byw ar ei safleoedd eraill ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.

## **Atal a rheoli heintiau**

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg. Gwnaethom adolygu systemau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Ar adeg y gwiriad ansawdd, nid oedd unrhyw breswylwyr a oedd wedi cael canlyniad prawf cadarnhaol am COVID-19 nac unrhyw heintiau eraill a ddelir wrth gael gofal iechyd, a gwelsom fod ystod o fesurau wedi cael eu rhoi ar waith i helpu i gynnal arferion atal a rheoli

---

<sup>4</sup>Mae'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Nod y trefniadau diogelu yw sicrhau y gofelir am bobl mewn cartrefi gofal ac ysbytai mewn ffordd nad yw'n cyfyngu'n amhriodol ar eu rhyddid

---

heintiau ym mhob rhan o'r gwasanaeth.

Gwelsom fod y bwrdd iechyd wedi sefydlu nifer o weithdrefnau a chynlluniau i'r staff eu dilyn er mwyn cefnogi arferion rheoli heintiau da. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau ar Atal a Rheoli Heintiau yn benodol ar gyfer COVID-19 a gweithdrefn i'r staff ei dilyn mewn achosion a amheuir o COVID-19. Lle y bo'n briodol, roedd y dogfennau hyn wedi'u teilwra'n lleol i ddiwallu anghenion yr uned.

Dywedodd y staff wrthym, er nad oedd y tîm Atal a Rheoli Heintiau wedi ymweld â'r gwasanaeth, fod cyngor ac arweiniad rheolaidd ar atal a rheoli heintiau drwy fewnwyd y staff. Fodd bynnag, ychwanegodd y staff eu bod wedi cael cymorth da gan reolwyr ar wahanol lefelau, gan gynnwys ymweliadau â'r safle, er mwyn helpu i roi cymorth a sicrwydd i'r staff a'r preswylwyr. Cadarnhawyd hefyd fod hysbysfwrdd yn cael ei ddefnyddio er mwyn i'r staff ymgyswrttu â'r wybodaeth ddiweddaraf.

Gwelsom fod nifer o gamau ymarferol eraill wedi'u cymryd i ddiogelu preswylwyr, gan gynnwys gwisgoedd newydd i'w gwisgo dim ond pan fydd y staff ar y safle, defnyddio geliau dwylo, helpu'r preswylwyr i ddeall nifer o bosteri a gaiff eu harddangos yn y cartref ac, am ei fod wedi'i nodi bod yn well gan rai o'r preswylwyr eistedd ar y llawr, rhoi diheintydd esgidiau wrth fynedfa'r uned er mwyn hybu hylendid da ymhellach.

Dywedodd y staff wrthym fod cyflenwadau digonol o gyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael a bod y staff wedi cael eu hyfforddi i wisgo a diosg PPE yn gywir. Nodwyd gennym fod hyn wedi peri anawsterau i rai o'r preswylwyr. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym fod defnyddio gwisgoedd pan fyddant ar y safle a neilltuo staff penodol i breswylwyr bob sifft wedi helpu i leihau'r risg o groesheintio.

Gwnaethom gadarnhau bod amserlenni glanhau mwy dwys wedi cael eu rhoi ar waith. Roedd hyn yn cynnwys creu rhestr wirio ar gyfer pob ystafell gyda rhestr o eitemau i'w diheintio ar adegau penodol yn ystod y dydd. Mae hyn yn sicrhau bod ardaloedd ac eitemau y cyffyrddir â nhw yn rheolaidd yn lân, er mwyn lleihau'r risg o groesheintio cymaint â phosibl.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC y ffordd y mae'r lleoliad yn sicrhau bod digon o staff ar gael sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, a'u bod yn gallu cysylltu â gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol eraill pan fydd angen. Hefyd, holwyd y lleoliad am y ffordd y mae, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac o ran diogelu hawliau'r cleifion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Roedd y rheolwyr y gwnaethom siarad â nhw yn llawn canmoliaeth am y ffordd roedd y staff

---

---

wedi tynnu ynghyd i gefnogi'r preswylwyr, eu perthnasau a'i gilydd yn ystod y trafferthion a achoswyd gan y pandemig.

Gwelsom fod lefelau staffio y cytunwyd arnynt ar waith yn y gwasanaeth a bod y staff yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn pe bai angen uwchgyfeirio unrhyw bryderon am staffio. Nodwyd gennym fod rheolwr y tîm yn gwneud gwaith ychwanegol, sy'n golygu nad yw'n cyfrif tuag at y niferoedd staffio cyffredinol ar bob sifft dydd.

Dyweddodd y staff wrthym fod y pandemig wedi effeithio ar staffio, ond gwelsom fod y gwasanaeth wedi rhoi pwyslais ar sicrhau bod aelodau presennol o'r staff neu staff banc sy'n dychwelyd yn cyflenwi ar gyfer nifer o'r sifftiau hyn. Diben hyn oedd sicrhau bod y staff yn parhau i fod yn gyfarwydd â'r preswylwyr, a lleihau'r risgiau croesheintio sy'n gysylltiedig â'r pandemig. O ganlyniad, dywedwyd wrthym fod hyn wedi sicrhau bod cyn lleied o effaith â phosibl ar y gofal beunyddiol a ddarperir i'r preswylwyr.

Ar adeg y gwiriad ansawdd, roedd nifer o swyddi gwag yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod pedwar aelod newydd o staff wedi cael eu cyflogi'n ddiweddar ac y byddent yn dechrau ar ôl i'r gwiriadau cyn cyflogi gael eu cwblhau. Bydd hyn yn helpu i ddarparu cyflenwad ychwanegol o staff ac atgyfnerthu'r gwasanaeth ar ôl i'r aelodau hyn o staff ddechrau yn eu swyddi.

Gwelsom fod un atgyfeiriad diogelu wedi'i wneud yn ddiweddar. Fodd bynnag, gwelsom ei fod wedi'i gau gan yr awdurdod lleol ar adeg y gwiriad ansawdd. Roedd y staff yn wybodus am fanylion yr atgyfeiriad ac yn gallu disgrifio ar lafar pa wersi a ddysgwyd a'r newidiadau i'r gweithdrefnau a nodwyd ac a roddwyd ar waith o ganlyniad.

Cawsom yr ystadegau hyfforddiant gorfodol a gwelsom fod lefelau amrywiol o gydymffurfio mewn rhai meysydd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod COVID-19 wedi effeithio ar y meysydd hyfforddiant hyn o ganlyniad i ddiffyg opsiynau hyfforddiant wyneb yn wyneb a dywedwyd wrthym y byddai'r meysydd hyn yn cael blaenoriaeth pan fyddai'r hyfforddiant ar gael eto. Roedd yn gadarnhaol nodi, fodd bynnag, fod hyfforddiant ychwanegol pwrpasol, fel rheoli ymddygiad cadarnhaol a rheoli meddyginiaeth, wedi'i flaenoriaethu oherwydd anghenion y preswylwyr, ac wedi cael ei gwblhau gan bob aelod o'r staff.

Nodwyd gennym hefyd fod y gwasanaeth yn cydnabod adroddiadau ac argymhellion cenedlaethol, fel Gwella Gofal, Gwella Bywydau<sup>5</sup>, a bod y bwrdd iechyd wedi penodi prif nyrs i adolygu'r argymhellion hyn er mwyn sicrhau y caiff anghenion y preswylwyr eu diwallu'n barhaus yn unol ag arferion gorau.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

---

<sup>5</sup> Adolygiad Gofal Cenedlaethol y Prif Swyddog Nyrsio o Ddarparu Gwasanaeth Anableddau Dysgu a Reolir neu a Gomisiynir gan GIG Cymru i Gleifion Mewnol Ysbytai (2020)



---

## Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.



# Cynllun gwella

Lleoliad: Anabledau Dysgu Hywel Dda - Gwasanaeth preswyl (Cyf 20091)

Dyddiad y gweithgarwch: 7 Ebrill 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff unrhyw geisiadau DoLS eu cyflwyno mewn modd amserol cyn gynted ag y daw'n hysbys bod angen gwneud cais.	Safonau Iechyd a Gofal, 2.7	Cynhaliwyd cyfarfod â Chyfreithiwr yn y Tîm Cleifion Cymhleth ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg) 13/04/21 i drafod achosion. Rhoddwyd cyngor cyfreithiol mewn e-bost 19/04/21. Trefnwyd cyfarfod i ddiweddar Datganiad Tyst un unigolyn 23/04/21 ac adolygiad gan y tîm amlddisgyblaethol i'w drefnu yn fuan. Trafodwyd a chytunwyd ar y gofyniad ar gyfer Aseidiadau Galluoedd gyda Seiciatrydd	Rheolwr y Ward / Nyrs Prosiect CTP	Gorffennaf 2021 ar gyfer ceisiadau.  Dibynnu ar amserlenni llysoedd ar gyfer cwblhau'r ceisiadau awdurdodi.

<p>Dylai'r bwrdd iechyd hefyd gadarnhau nad oes unrhyw geisiadau pellach heb eu gwneud ar gyfer preswylwyr sy'n byw ar ei safleoedd eraill ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.</p>	<p>Ymgynghorol Locwm ym mis Ebrill 2021. Y broses i'w hailadrodd ar gyfer y tenantiaid eraill mor fuan â phosibl.</p> <p>Fel y nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, caiff ceisiadau eu cyflwyno ar gyfer dwy uned iechyd parhaus ar yr un pryd, ac nid oes unrhyw geisiadau eraill heb eu cyflwyno. Ceir 7 tenant i gyd.</p>
---	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: T Lloyd

Dyddiad: 20/04/2021